,

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Council Minutes

16 Ebrill 2018 / 16 April 2018

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 16 Ebrill 2018 yn Neuadd Pentref Y Groeslon.

Minutes of the Full Council Meeting held Monday evening, 16th of April 2018 at Groeslon Village Hall

Yn bresennol / Present - 9 aelod / members

Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron
Cyng. Gwyn Owen Jones;

Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel
Cyng. Bryn Wiliams; Cyng Helen Hughes

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon
Cyng. Alun Wyn Jones; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. Hywel J Owen; Cyng. Robert Jones; Cyng. David Davies

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle
Cyng. Clive Bayley

Hefyd yn bresennol / Also in Attendence-

David Roberts, Clerc y Cyngor / Council Clerk
Huw Roberts , Cyfieithydd / Translator

18-04-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome***

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Cyngor, Cyng. Hywel J Owen. Diolchodd i bawb oedd yn bresennol am fynychu. Estynwyd groeso I Huw Roberts y cyfiethydd. Dywedodd y Cadeirydd mai hwn fyddd ei gyfarfod olaf yn y Gadair.
Aeth yn syth at y rhaglen.

The meeting was opened by Council Chairman. He welcomed all. He went straight onto the business to be discussed.

18-04-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / *Apologies for Absences***

Cyng. David M Lewis, Cyng, Alan Patterson; Cyng. Gerwyn Owen; Cyng Dyfed Williams

---

18-04-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen – Adran 51 Deddf Llywodraeth Lleol 2000 - *Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

Cyng . Alun Wyn Jones a Cyng. David C Dvies – Eitem ** Aelodau o Neuadd Pentref Y Groeslon
Cyng Robert Jones - Gwasanaeth Bws 1F- Yn gweithio i Cwmni Bysus Huw

18-04-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 19 Mawrth 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 19th of March 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-04-05 **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-04-06 **Gwasanaeth Bws 1F & 1M – Carmel/Fron/Rhosgadfan**

Cafwyd diweddariad o'r sefyllfa gan Cyng. Robert Jones, sydd hefyd yn Rheolwr ar Gwmni Bysys Huw.

Fe wnaeth ddatgan buddiant ond rhoddwyd yr hawl iddo roi sylwadau gan ei fod yn amlwg yn gwybod beth oedd bwriad y cwmni gyda'r gwasanaeth

Sylwadau Aelodau -
Cyng. Eddie Willcox –
Ar ddallt fod angen 56 diwrnod o rybudd i newid teithiau.

Cyng. Helen Hughes -
Wedi derbyn e-bost gan swyddfa'r blaid yn datgan fod cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod y sefyllfa. Yn dymuno gweld bws yn cychwyn o Gaernarfon am 6.30 yr hwyr i weithwyr. Trigolion wedi gwneud cais i Gyngor Gwynedd i ail-gyfeirio gwasnaeth bes o Gaernarfon i Nebo i deithio i fynnu i Rhosgadfan , Fron a Carmel cyn troi lawr am Benygroes a Nebo.

Cyng. Robat Jones –
Ddim yn ymwybodol o unrhyw gyfarfod.
Cyngor Gwynedd yn medru "fast tracio" trwy roi "short notice application" i'r Comisiynwr Trafnidiaeth i newid teithiau heb orfod disgwyl 56 diwrnod.
Y Cwmni Bysys Huw yn bwriadu ail-gyfeirio taith Caernarfon/Nebo trwy Fron a Carmel yn fuan iawn.

Derbyniwyd y wybodaeth gan ddiolch i Cyng. Robat Jones am y wybodaeth
Information noted and the Chairman thanked Cllr. Jones for his report

18-04-07 **Parc Glynllifon**
Clerc heb gael cadarnhad gan Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd I enwebu aelod i'r gweithgor. Angen dilyn i fynu.
HJO– dim datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth
Resolved to note the information

18-04-08 **Meddygfa Kendall, Rhostryfan**
Cafwyd cadarnhad fod y feddygfa yn cau 27 Ebrill 2018

Cyng. Bryn Williams – ergyd drom i wasanaethau cefn gwlad.

Cyng. Eddie Willcox - hyn yn groes i Bolisi Llesiant Cyngor Gwynedd sydd yn datgan fod gan bawb hawl i fynediad i feddygfeydd a gofal iechyd.
Diffyg gwasanaeth bws y ei gwneud yn anodd i bobol cael mynediad meddygfeydd yn arbennig meddygfa yn y Waunfawr. Nodwyd ganndo fodun person pob deg yn methu cael apwyntiad yng Nghaernarfon.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth
Resolved to note the information

18-04-09 **Dinas Dinlle - Llwybr**

Yn awyddus fod unrhyw beth y cael ei wneud yma. Yn deallt fod Cyngor Gwynedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan nad oes unrhyw fwriad ganddynt i adfer y llwybr. Ond yn teimlo fod yna ddyletswydd ar y Cyngor hwn i gyflawni gwaith tirlunio yma. Rhoddwyd map o'r ardal i bob aelod ganddo ac fe eglurodd ei syniadau.
Awgrymu y dylid gofyn i berchnogion y chwareli yn Fron i gyfrannu gwastraff llechi i gau'r bwlch ger y llwybr. Holodd am y swm o £5,000 roedd y Cyngor Cymuned wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith ar y llwybr.
CNC hefo digon o arian - yn gwario £300,000 ar bont trafnidiaeth ar dir fferm ochrau Pontllyfni

Sylwadau Aelodau-

Cadeirydd - byddai pawb yn dymuno adfer y llwybr o un pen i'r llall, ond rhaid derbyn fod CG a CNC wedi datgan nad ydynt yn bwriadu cyflawni unrhyw waith. Nid tir y Cyngor Cymuned ydi hon,, felly nid oes gan y Cyngor yr hawl i ymyrryd. Byddai'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa beryglus petai yn cyflawni gwaith a damwain yn codi. Gwaith tu hwnt i adnoddau'r Cyngor hwn

AWJ - ni fyddai gan y Cyngor Cymuned yr hawl i symud deunydd i'r safle oni bai ei fod yn ddeunydd tebyg I deunydd natural y traeth. Yn sicr ni fyddai CNC yn caniatáu gwastraff llechi ar y lan mór.

GOJ- y gorau y medrwn ddisgwyl bellach, yn dilyn cyhoeddiad CG a CNC i "dynu'r plwg" ar unrhyw ddatblygiad yma yw I gael llwybbr redeg gyferbyn y lón newydd yn y dyfodol.

Clerc - yn atgoffa'r aelod fod rhan o'r £5,000 wedi ei wario yn 2017-18 gyda'r gweddill wedi ei ymrwymo i strategaeth ariannol (cyllideb) 2018-19

Penderfynwyd i Cyng. Eddie Willcox wneud ymholiadau ar liwt ei hun ac adrodd yn ôl i'r Cyngor fel ag y bydd yn briodol.

Resolved to ask Cllr. Eddie Willcox to make the necessary enquires and to report back to the Council as is appropriate

18-04-10 **Cofeb Rhyfel Byd Cyntaf – Capel Bryn'rodyn**

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod angen cartref newydd i'r gofeb sydd yng Nghapel Bryn'rodyn gan fod Capeli Bryn'rodyn a Brynrhos yn cau.

Penderfynwyd ar y canlynol

i) anfon cais ffurfiol i Bwyllgor Neuadd Y Groeslon i osod y gofeb ar y Neuadd.
ii) Y Cyngor fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau ynghlwm ac ail-leoli'r garreg ac unrhyw waith cynnal i'r dyfodol

The following was resolved

i) For the Council to formally ask the Village Hall Committee for permission to place the memorial plaque on the building
ii) That the Council will be responsible for the plaque and for any costs in its re-location as well as any future maintainence work required.

18-04-11 **6 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo y Cyngor a Cynhaliwyd 3ydd o Ebrill 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Cemeteries & Assets Committee held on 3rd of April 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-04-12 **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-04-13 **8 Tender Cynnal Tiroedd Ysgolion a Gwagio Biniau'r Mynwentydd / Tender Playing Fields Ground Maintenance and Emptying Bins in the Cemeteries**

Eglurodd y Cadeirydd fod y Cyngor wedi rhoi hawl gweithredu i'r Pwyllgor felly nid oedd angen derbyn yr argymhelliad. Yr argymhelliad ydi'r penderfyniad.

Sylwadau Aelodau-
EW - beth yw sefyllfa'r drwydded cludo gwastraff. Rhaid I'r Cyngor oedi rhag cynnig cytundeb parhaol.

HH (Cadeirydd y Pwyllgor ar y noson) - y Pwyllgor wedi ystyried y sefyllfa, ac wedi cynnig cytundeb dros dro hyd nes y bydd y Clerc yn derbyn copi o'r drwydded.

Pendefynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

i) Fod y Cyngor derbyn penderfyniad y Pwyllgor i gynnig y gwaith i "Cwmni 1" i gynnal y caeau chwarae a gwagio biniau

ii) Fod y Cyngor yn cynnig cytundeb dros dro ar y cychwyn yn amodol os bydd y Cwmni yn anfon copi o'r Drwydded Cario Gwastraff i'r Cyngor

iii) Fod y Cyngor yn derbyn penderfyniad y Pwyllgor i beidio cynnig y gwaith ar gyfer cae pêl-droed Y Fron hyd nes y bydd penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â throsglwyddo'r cae cyfarwyddwyr Canolfan Y Fron.

Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows

i) For the Council to accept the Committee' decision to offer the tender to Company 1

ii) For the Council ta accept the decision to offeronly a temporary contract until a copy of the Waste Carrier Certificate is received

iii) For the Council to accept the Committees decision not to offer the work on the Fron Playing Field until the Council decides to accept the offer of Canolfan y Fron to lease the land.

18-04-14 **9 Gohebiaeth gan Grŵp Datblygu'r Fron - Cae Pêl Droed / Correspondence from the Fron Development Group - Footblall Field**

Sylwadau Aelodau

EW - cafwyd hanes y problemau oedd wedi dod yn amlwg yn 2017 gyda chyfansoddiad y Ganolfan. Rhaid oedd galw cyfarfod rhwng Cyngor Gwynedd, Y Loteri ac aelodau'r Ganolfan / Grŵp Datblygu'r Fron i ddatrys y problemau. Cyfarfodydd wedi bod yna agored ers hynny. EW yn gwneud yr honiad fod rhai o'r pentrefwyr yn teimlo nad ydynt yn cael ei gynnwys yn y datblygiad. Roedd y Loteri wedi gofyn i'r cyfansoddiad cael ei addasu ar hygr "Phase 2" o'rdatblygiad - (a wrthodwyd).

Yn bryderus fod y Cyngor yn bwriadu trosglwyddo'r tir I Gwmni. Yn gofyn oes hawl gweithredu fel hyn. Hefyd yn awyddus fod y brydles yn cynnwys cymal y bydd y tir yn trosglwyddo yn ôl i fi'r Cyngor os bydd y Ganolfan yn methu.

Penderfynwyd ar y canlynol

i) Fod y Cyngor yn cynnig y cae i Ganolfan y Fron ar brydles o 99 mlynedd
ii) Fod y Cyngor yn sicrhau fod y brydles yn gwarantu defnyddio'r cae i'r gymuned a bod y cae yn cael ei gynnal i safon dderbyniol
iii) Fod y Cyngor yn cytuno i drosglwyddo'r cae i'r Ganolfan ar y cyfle cyntaf.
iv) Fod y Cyngor yn gofyn i gyfreithiwr y Cyngor i gadarnhau nad oes unrhyw rwystr i'r Cyngor osod prydles am 99 mlynedd i'r Ganolfan, sydd yn gwmni cofrestredig
v) Fod y Cyngor yn gosod cymal yn y brydles yn gwarantu fod y tir yn trosglwyddo yn ôl i'r Cyngor pe byddai'r ganolfan yn methu yn y dyfodol.

Resolved –

i) For the Council to offer the land to Canolfan Y Fron on a 99 year lease
ii) For the council to ensure that the lease agreement includes access to everyone in the Community and that the land is adequately maintained
iii) For the Council to lease the land to Canolfan y Fron at the earliest possible opportunity
iv) To seek guidence from the Councils Solicitor regarding leasing the land to The Ganolfan
v) To ensure that the lease includes a clause that transfers ownership back to the Council should the Ganolfan fail in the future

18-04-15 **10 Llochesi Bws Diweddariad – Bus Shelters - Update**

Gofynnodd EW am ddiweddariad ynglyn a llches bws Y Gron. Atgoffwyd gan y Clerc fod Cyngor Gwynedd wedi datgan nad oedd y Ddeddf Mynediad Anabl yn berthnasol i lochesi bws oedd wedi ei adeiladu cyn y Ddeddf ddod I rym. Fodd bynnag mae;r Cyngor wedi ymrwymo arian ar gyfer cynnal arolwg ar y safleoedd. Bydd rhaid cyfeirio y mater yn o I Pwylggor Mynwentydd ac Eiddo am arweiniad pellach.

Penderfynwyd ar y canlynol – Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ac yn ymddiried yn y Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo i arwain ar y mater

Resolved – For the Council to accept the information and to entrust the Cemeteries & Assets Committee to give gthe Council guidance on the matter

---

18-04-16 **11 Aelodaeth Pwyllgorau 2018-19**

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod pob aelod yn cael ei enwebu i fod yn aelod ar Bwyllgorau'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn enwebu aelodau i Bwyllgorau 2018-19 yn y cyfarfod blynyddol. Bydd angen trafod a oes angen cyfieithydd i fynychu'r cyfarfodydd

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth
Resolved – to note the information

18-04-17 **12 Diwygio Deddfwriaeth Diolgelu Data / Reform of Data Protection Legislation**

Penodi Swyddog Datblygu Data erbyn 25 Mai 2018 / Appointing a Data Protection Officer by 25 May 2018

Trafodwyd gofynion Deddfwriaeth Diogelu Data newydd (sydd eto heb ei basio)

Gohebiaeth wedi cyrraedd trwy Un Llais Cymru gan yr IOC, "toolkits" ac ati.

Mae gofyn i'r Cyngor gychwyn ar y daith o ddarparu at y gofynion newydd megis-

- "disclaimer" ar waelod ebost yn datagn na fydd y wybodaeth yn cael ei anfon ymlaen i drydydd parti
- Diweddaru polisi – disgwyl "model" gan Un Llais?
- Sortio hen ffeiliau – adnabod y wybodaeth syd yn cael ei ddal
- Diogelu unrhyw wybodaeth personol

Derbyniwyd e-bost gan Un Llais Cymru dyddiedig 4 Ebrill yn cynhori pob Cyngor Cymuned i ddal yn ol rhag apwyntio Swyddog Diogelu Data hyd nes y bydd cyngor pellach yn dod gan Un Llais yn yr wythnosau i ddilyn.

"My advice therefore is to hold off the appointment of the DPO for the time being and I will be issuing advice to all member councils once things become clearer over the coming weeks."

The General Data Protection Regulation (GDPR) requires all public authorities to appoint a Data Protection Officer (DPO). The new Data Protection Act (when passed) will define 'public authority', but it is likely to have the same definition that is in the Freedom of Information Act 2000 (FOIA) and therefore includes all councils.
The Information Commissioner is sympathetic to the challenges that appointing a Data Protection Officer (DPO) may pose for parish and town councils, especially those with limited budgets. She has already acknowledged that smaller councils are unlikely to hold large amounts of personal data, and as a result tend to be less prepared for regulatory changes. But regardless of size, if councils hold personal information, from 25 May 2018, the General Data Protection Regulation (GDPR) applies.
The Commissioner has said previously that the GDPR is a journey rather than a destination. She will be looking to councils to demonstrate that they are committed to making progress towards embedding the right processes and procedures. She wants to reassure councils that if they have a positive attitude to finding practical solutions to some of the challenges of implementation, they will find a pragmatic, fair and proportionate regulator.In the meantime, we recognise that there's still plenty of work parish and town councils need to do to implement the necessary stepsto comply with GDPR. We've already provided a lot of tools and support to help with these steps, including our Guide to the GDPR,frequently asked questions, toolkit and helpline for smaller organisations.We're also committed to working closely with the National Association of Local Councils (NALC) and the Society of Local Council Clerks (SLCC) to consider alternative solutions to the specific issue of appointing DPOs. For example, we see promise in the idea of developing a shared DPO service allowed under Article 37(3). Whilst such a shared service may not be an immediate fix in time for 25 May, it could in the long term enable smaller councils to manage their data prot

Derbyniwyd wybodaeth gan Gwmni Celyn sydd yn bwriadu cynnig y gwaith i Gynghorau Cymuned a Thref. Mae'n bosib y byddai'r costau i'r Cyngor oddeutu £500 y flwyddyn.

Ymhellach deallir fod Un Llais Cymru yn bwriadu cynnal hyfforddiant ar xv

Penderfynwyd ar y canlynol-

i) ***Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ac yn disgwyl am arweiniad pellach gan Un Llais Cymru cyn symud ymlaen a penodi Swyddog Diogelu Data***

Resolved-

i) ***For the Council to accept the information and to await further guidance from One Voice Wales before proceeding to appoint a Data Information Officer***

Gohebiaeth / Communication Received

18-04-18 **13 Cyng. Craig ap Iago – Cyfarfod i drafod cynllun haf pobol ifanc ardal Dyffryn Nantlle / Summer Schemes for young people in Dyffryn Nantlle**

Cyfarfod yn Ysgol Dyffryn Nantlle 11 Ebrill am 2 o'r gloch/ Meeting 11 April at 2 o'clock

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth
Resolved – to note the information

18-04-19 **14 Ymateb Un Llais Cymru i Adolygiad Cynghorau Tref a Chymuned / One Voice Wales Response to the Community and Town Council Review**

Copi o'r ymateb wedi ei anfon i pob aelod 3/4/18 ymlaen llaw/ Copy sent out via email to each member 3/4/18

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb unrhyw sylwadau
Resolved – to note the information without any comments

18-04-20 **15 Materion a Godwyd gan Aelodau**

Cyng. Eddie Willcox

18-04-21 **Toiledau Cyhoeddus**

Adroddwyd fod yna erthygl yn y wasg yn ddiweddar yn canmol gwaith yn ardal Friog gan aelodau o'r gymuned sydd wedi meddiannu toiledau cyhoeddus gan Gyngor Gwynedd.
Gofynnodd i'r Cyngor hwn edrych i mewn i'r mater.
Clerc wedi anfon e-bost i'r Cyngor Cymuned ond dim ymateb.
Fodd bynnag derbyniwyd gwybodaeth gan Glerc Cyngor Cymuned Llanengan sydd hefyd wedi meddiannu toiledau cyhoeddus yn Abersoch. Hefyd wedi gosod nifer o finiau baw cwn yn y gymuned.

Bydd rhaid i'r Cyngor hwn gychwyn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd yn fuan ynglŷn â dyfodol toiled y Marine, Dinas Dinlle. Awgrymodd y Clerc y dylid ystyried gwahanol swyddogion o'r Cyngor Sir i gyfarfod y Cyngor mis Mehefin.

Sylwadau Aelodau –

Cyng. Clive Bayley –
Canlyniad yr ymgysylltu yn mynd I rhoi yr arweiniad i'r Cyngor

Sylwadau Aelodau –

Cyng. Clive Bayley –
Canlyniad yr ymgysylltu yn mynd I rhoi yr arweiniad i'r Cyngor

Penderfynwyd cyfeirio y mater i Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo Y Cyngor i gychwyn y drafodaeth ac gynnig arweiniad i'r Cyngor

Resolved – to refer the matter to the Cemeteries & Assets Committee to start the discussions and to guide the Council.

Cyng. Helen Hughes

18-04-22 **Ysgol Carmel / *Carmel School***

Yn bryderus fod pobol yn byw yn yr ysgol heb hawl cynllunio.
Hefyd cwynion wedi ei dderbyn fod gan y perchnogion yr ysgol gi "Staffordshire" a bod hwnnw wedi bod yn y cae chwarae. Deallir fod ci wedi brathu plenty yn y cae. Heddlu wedi bod yn ymweld y perchennog. HH yn awyddus i'r Cyngor gau'r fynedfa (giât) rhwng yr ysgol ar cae.

Adroddwyd gan y Clerc fod Cyngor Gwynedd wedi ymweld y safle. Bydd CG yn cefnogi eu cais i newid defnydd gan fod yr ysgol yng nghanol y pentref.

CB - yn awgrymu fod y Cyngor yn rhoi amod y bod rhaid cau'r fynedfa wedi derbyn y cais cynllunio gan Gyngor Gwynedd

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a disgwyl hyd nes y daw y cais cynllunio newid defnydd gerbron y Cyngor. Wedi derbyn y cais rhoi y sylwad fod disgwyl i'r fynedfa rhwng yr iard a'r cae cael ei gau.

Resolved to note the information but to wait until the retrospective planning application is received. Once received the Council will comment that planning should only granted if the entrance between the school yard and the field is closed.

Cyng. Bryn Williams

18-04-23 **Tipio Slei Bach / Fly Tipping**

Tipio slei bach yn broblem yn yr ardal. Wedi codi saith bag bin o rwbel Gors Dafarn yn ddiweddar.
Gofynnodd am enw y swyddog yn Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y mater.

Dywedodd Cyng. Bryn Williams y byddai yn cysylltu gyda Peter Simpson o CG yn uniongyrchol ynglyn a'r mater
Cllr Bryn Williams said he will contact Peter Simpson of Gwynedd Council directly regarding the problems.

Cyng. Hywel J Owen

18-04-24 **Diffyg Safle Chwarae yn Y Groeslon / Lack of Playing Area In Groeslon**

Yn bryderus nad oes cae chwarae yn y Groeslon. Plant yn chwarae ar y lon ger mynedfa Cae Sarn. Ofnir y bydd damwain yma gan fod cerbydau yn gwibio i lawr o Carmel.
Neb yn cael defnydd o cae chwarae yr ysgol.
Cyng Eric Jones yn cefnogi'r syniad o gael cae chwarae.
Gofynnodd am gefnogaeth y Cyngor ar y mater

AWJ – rhoddwyd cefndir I'r aelodau o'r problemau sydd wedi codi gyda cae chwarae yr ysgol.

Penderfynwyd ar y canlynol

- ***i) cefnogi y cynnig***
- ***ii) cysylltu gyda Adran Eiddo Cyngor Gwynedd gan fynegi pryderon y Cyngor hwn am yr oedi yn cwbwlhau y hwaith ar gae yr ysgol.***

The following was resolved

i) to support the proposal

ii) to contact The Property Department of Gwynedd Council and to express this Council's concerns regarding the delay in completing the wors on the school playing field.

18-04-25 **16 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Ebrill 2018 / April 2018**

18-04-26 **C18/0265/17/LL**
Maes Twrog, Dinas Dinlle LL49 5TW
Estyniadau a newidiadau i greu llawr cyntaf / Salterations and extension to form first floor

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

18-04-27 **C18/0269/17/MW**
Parc Llanfair, Dinas Dinlle, LL54 7TW
Cais ar gyfer trosi storfa bresennol i lety byncws ynghyd a newidiadau allanol a darparu llecynnau parcio / Application for the conversion of the existing storage barn to bunkhouse accomodation together with external alteations and creation of car parking.

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

Materion Ariannol / Financial Matters

18-04-28 **17 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Mawrth 2018 – Income Received March 2018**

Manylion / Details	Cyfanswm
Dim/None	

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .
Resolved to accept the information

18-04-29 **18 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Clerc – Ebrill 2018 – Clerks Salary April 2018	£429.51	£429.51	Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Ebrill 2018– Income Tax April 2018	£113.40	£113.40	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc–Ebrill 2018–Clerks Allowance April 2018	£24.00	£24.00	Uniongyrchol/Direct
Huw Roberts – Cyfieuthu Mis Ebrill 2018	£54.00	£54.00	

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Clerc i ryddhau'r oll daliadau.
Resolved to accept the information and to authorise the Clerk to relaease all the payments

18-03-30 **19** **Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn / matters to be raised by Members for the Next Meeting (21 Mai 2018 / 21st of May 2018)**

Dim materion yn codi / No matters arising

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 yr hwyr / The meeting ended 9:10 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor **Signed by the Chairmam**	
Dyddiad - Date	